

Taith gerdded Dyffryn Ceiriog – cerdded i'r gorllewin

Cam 1a – O dan y draphont ddŵr

Prif faes parcio Y Waun i'r Bont Faen Pellter 1.5km (0.9 milltir) Cynnydd uchder 20m (65 troedfedd) Amser 30 munud.

Gadewch y maes parcio trwy'r arwydd "Dim Allanfa", a throi i'r chwith ar hyd y stryd fawr. Ewch heibio'r eglwys, a dechrau i lawr yr allt. Tua 70 metr ar ôl gadael y pentref, ewch dros y gamfa ar y chwith. Dilynwch y llwybr glaswelltog i'r dde ac i lawr yr allt, yna anelwch tua'r chwith at yr hen felin. Croeswch y bont droed ger hen ffrwd y felin, croeswch y gamfa ac ewch ymlaen at glwyd wedi ei gwneud o fetel. Gwasgwch drwy'r bwlch ger y glwyd, croeswch y ffordd gyda gofal ac ewch drwy'r glwyd fochyn gyferbyn. Dilynwch yr afon ar hyd y llwybr, gan fynd o dan y draphont enfawr. Cadwch lan yr afon ar eich chwith, gan anelu at y bont garreg. Ewch drwy'r glwyd fochyn i'r dde, ac i'r Bont Faen.

Os croeswch y bont, mi fyddwch yn Lloegr!

NEU

Cam 1b – Coed y Castell

Gorsaf drenau Y Waun i'r Bont Faen Pellter 1km (0.6 milltir) Cynnydd uchder Bron dim Amser 15 munud.

Ewch allan o'r orsaf a throi i'r dde, gan groesi'r bont reilffordd a cherdded ymlaen am bum munud tuag at giatau trawiadol y castell. Trowch i'r chwith i'r rhodfa darmac. Wrth i'r rhodfa wyro i'r parc carafanau, ewch ymlaen. Trowch i'r dde ar y gyffordd, i lawr allt trwy goetir. Ewch allan i'r ffordd, trowch i'r dde a cherdded ymlaen am 100 metr ac yna i'r hen bont, y Bont Faen.

Os croeswch y bont, mi fyddwch yn Lloegr!

NEU

Cam 1c – Maes parcio Glan Wylfa i'r Bont Faen

Pellter 750 meter (hanner milltir) Cynnydd uchder Bron dim Amser 12 munud.

Ar Ffordd y Castell, y B4500, mae'r maes parcio yma'n agos at y gamlas a'r draphont ddŵr.

Gadewch y maes parcio a throi i'r dde i groesi'r ffordd cyn cylchdro bach. Mae'r olygfa o'r draphont fendigedig yn drawiadol iawn yma - ac mae twnnel y gamlas o dan eich traed!

Ewch ar hyd y B4500 am tua 130 metr, yna croeswch y ffordd tua'r llwybr a'r bont droed (pont y Matchbox ar lafar yn lleol) sy'n croesi'r llwybr tram hanesyddol. Dilynwch y llwybr yma, gan anwybyddu'r llwybr sy'n ymuno o'r dde, ac ewch i lawr allt trwy goetir. Ailgroeswch lwybr y tram at y ffordd. Trowch i'r dde, lawr yr allt am 100 metr, ac i'r Bont Faen.

Os croeswch y bont, mi fyddwch yn Lloegr!

Cam 2 – Ymweld â Lloegr

O'r Bont Faen i Glawdd Offa Safleoedd bws ger y Bont Faen ac wrth Felin y Castell

Pellter 2.7km (1.6 milltir) Cynnydd uchder 154 metr (510 troedfedd) Amser Ychydig dros un awr.

O'r bont, trowch i'r dde i lôn ar lan yr afon sy'n rhan o Lwybr Maelor. Yn union ar ôl y blwch ffôn, ewch dros y gamfa ar y dde a thros ddôl, gyda'r afon ar y dde. Cerddwch at y gamfa nesaf, sy'n arwain at goetir Coed Cadw. Dilynwch y llwybr ar hyd glan yr afon, i fyny'r grisiau ac i lawr y grisiau gan droi i'r chwith ar y gwaelod. Ewch yn eich blaen, gan groesi camfa wrth adael y coetir a dilyn y llwybr at gamfa arall. Ewch o dan y goeden boplysen enfawr at glwydi mawr sy'n gwarchod tŷ. Dilynwch y lôn at y ffordd.

Mae yna ffordd haws, trwy ddefnyddio lonydd cefn a thrwy hynny osgoi 50 metr (160 troedfedd) a thua chwe munud o chwysu! (Camau 2 a 3). Ond ar gyfer y daith rydyn ni'n ei hargymell, trowch i'r dde am tua 20 metr yn unig gyn troi i'r chwith at y "lôn werdd" sy'n rhedeg ar hyd ochr chwith yr hen ysgol. Ewch at ben y lôn a thros gamfa gudd gerllaw'r glwyd. Ewch trwy'r bwlch yn y gwrych ar y chwith, a mynd ar draw cae twmpathog gyda chwarel ar eich chwith, trwy linell yr hen wrych, ar draws cae bach i'r gamfa at lwybr caregog. Trowch i'r chwith ac i fyny'r allt am bum munud cyn dod at groesffordd. Trowch i'r dde, gan ddal i fynd i fyny'r allt, am tua deg munud. Wrth i bethau wastadau mi gewch eich gwobr - golygfeydd bendigedig, coed ffawydd hyfryd a'r castell ar draws y dyffryn. Mae yna doriad drwy Glawdd Offa yma - ewch trwyddo, a thrwy dros fil o flynyddoedd o hanes, i ddychwelyd i Gymru!

Wedi blino'n lân? Dilynwch Lwybr Clawdd Offa i lawr yr allt, yna lôn serth i lawr i ddilyn llwybr y bws ym Melin y Castell.

Cam 3 – Lonydd llonydd a phorfeydd gwelltog

Clawdd Offa i Bontfadog Ymhlith y cyfleusterau ym Mhontfadog mae siop popeth (sy'n cynnwys swyddfa bost), safle bws, blwch ffôn, hen ystafell aros y tramiau, garej a thafarn groesawgar The Swan.

Pellter 3.5km (2.2 milltir) Cynnydd uchder
65 metr (214 troedfedd) Amser Un awr a
phum munud.

Tri deg metr heibio Clawdd Offa, wrth i'r llwybr ledaenu, croeswch y gamfa ger y glwyd ar y dde at lwybr eithaf gwastad. Ewch ymlaen wrth i'r llwybr anelu at ddwy glwyd a chamfa. Croeswch y gamfa ar y dde i mewn i gae, gan anelu i lawr yr allt am 50 metr. Croeswch gamfa arall ger clwyd. Ewch ymlaen, gyda ffens ar y chwith i ddechrau. Peidiwch â dilyn y ffens wrth iddo wyro i'r chwith; ewch yn syth yn eich blaen, heibio'r graig am tua 200 metr eithaf gwastad. Gwyrwch i'r dde ychydig, i lawr allt raddol, i gamfa ger cornel y cae. Ewch heibio'r coed draenen wen, i fyny'r allt cyn mynd i lawr i gornel y cae. Croeswch y gamfa ac ewch i lawr allt eithaf serth, gan ddilyn y gwrych ar y dde, trwy fwch o'ch blaen yna trowch i'r chwith at glwyd sy'n agor ar rodfa tarmac. Cerddwch ar hyd y lôn am ryw ddau funud, at lôn sydd â chut Nissen mawr gyferbyn. Dilynwch y lôn yma i fyny ar eich union, gan anwybyddu pob trofa a fforch. Ar ôl 45 munud ar hyd y lôn, gan ddisgyn mewn camau, mi groeswch bont ar draws yr afon i gyrraedd pentref Pontfadog.

Cam 4 – Coetir a phorfa

Pontfadog i Glyn Ceiriog Ym Mhontfadog - safle bws, tafarn, swyddfa bost, garej ac ystafell aros ar gyfer y tram! Yng Nglyn Ceiriog - safleoedd bws, swyddfa bost, siopau, Y Stiwt, tafarndai, a Chanolfan Cristnogol yn cynnig bwyd a diod.
Pellter 4km (2.5 milltir) Cynnydd uchder
80 metr (250 troedfedd) Amser Awr a
hanner.

Gadewch ganol Pontfadog a dilyn y ffordd fawr tua Glyn Ceiriog am tua chwe munud cyn cyrraedd croesffordd. Trowch i'r dde ar hyd y lôn fach, sy'n gwyro yn ôl ar ei hun, am tua thri neu bedwar munud cyn cyrraedd pen y tarmac. Trowch i'r chwith yma, ar hyd llwybr uwchben gardd. Ar ôl tua 400 metr mi fyddwch yn cyrraedd llwybr ehangach. Trowch i'r chwith at lôn darmac, ac ewch i'r dde am 150 metr at groesffordd ffurf pen saeth. Ewch heibio blwch post ar hyd y lôn wastad hon am tua chwe munud cyn cyrraedd yr arwyddion "30 milltir yr awr".

Cerddwch ymlaen am 80 metr arall at frig yr allt, cyn troi i'r dde rhwng tai ar hyd lôn werdd fer cyn cyrraedd camfa. Ewch ymlaen, i fyny'r allt ac yna ar draws ac i'r chwith trwy goed cymysg at glwyd a chamfa ac at weirglodd. Dilynwch y gwrych am tua 100 metr at gamfa arall. Dilynwch yr un gwrych, ond oddi tano erbyn hyn, cyn croesi camfa arall. Anelwch i fynd heibio perthlys o binwydden Yr Alban tuag at gamfeydd.

Ewch rhwng hen adeiladau adfail ac i lôn darmac. Trowch i'r chwith ac i lawr yr allt am funud a hanner at fachdro (hairpin bend), gan adael y lôn ar hyd rhodfa uwchben tŷ. Ewch trwy glwyd fach, yna ar draws ac i lawr, heibio stablau, at bont droed a chamfa dros nant. Ewch 50 metr i lawr allt tua'r gwrych, yna i'r dde uwchben y gwrych a chlamp o dŷ, yna i'r chwith ac ar draws tua chamfa a lôn darmac. Trowch i'r dde ac ar hyd y lôn am wyth munud, yna i'r

chwith ar hyd ochr meysydd chwarae'r ysgol i gyrraedd a chroesi'r briffordd gyferbyn â mynedfa'r ysgol. Ewch ar hyd y llwybr ger yr afon am wyth munud i'w ben ger swyddfa bost Glyn Ceiriog. Ewch i'r dde i fyny'r allt am ychydig, gan orffen wrth The Cross.

Mae yna fwyd a diod yn y tafarndai a'r Ganolfan Gristnogol, safleoedd bws, swyddfa bost, siopau a'r Stiwt.

Cam 5 – Craig Pandy

Glyn Ceiriog i Pandy Safle bws, siopau, swyddfa bost, a bwyd a diod yng Nglyn Ceiriog Safle bws a stiwdio gwydr ym Mhandy

Pellter 2.5km (1.5 milltir) Cynnydd uchder 150 metr (500 troedfedd) Amser 55 munud.

Mae'r cam yma'n mynd dros Graig Pandy fendigedig, sy'n teyrnasu dros y dyffryn cyfan. Mi fydd y llwybr yma'n rhoi'ch gwynt yn eich dwrn, neu mae yna gyfle i ddilyn ffordd y dyffryn. Mi fydd hynny'n osgoi ugain munud o chwysu, ond mi fydd hefyd yn golygu eich bod yn colli golygfeydd anhygoel, a rhaid cofio hefyd nad oes gan y ffordd droedffordd felly mae angen gofal.

Os ydych chi'n dilyn y ffordd, dilynwch y B4500 o dafarn The Cross tua Llanarmon am tua ugain munud. Yn fuan ar ôl mynd heibio'r fynedfa i'r parc carafán, trowch i'r chwith drwy'r glwyd ac i lwybr tramiau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a fydd yn eich arwain i Bandy mewn tua phum munud.

Er mwyn dilyn y trywydd uwch, dilynwch y fforch i'r dde am tua phum munud ar ôl gadael The Cross, arwyddwyd "Nantyr". Ewch ar hyd y ffordd yma am tua phum munud at fachdro. Ewch syth ymlaen ar hyd llwybr garw heibio bwthyn pren. Dilynwch y llwybr cudd serth yma am tua 11 munud cyn cyrraedd clwyd i gae. Ewch yn syth ymlaen ar draws y cae, gyda'r ffermdy ar y dde. Mae'r llwybr yma'n medru bod braidd yn lleidiog a thrwm mewn tywydd drwg. Cadwch hen linell y gwrych ar y dde. Ar ôl tua phedwar munud, croeswch lwybr caregog i ddringo at yr esgair, gan barhau i ddilyn llinell yr hen wrych.

Ar ôl pum munud o esgyn, mae'r llwybr yn cyrraedd uchafbwynt y daith, cyfle i werthfawrogi'r hyfrydwch a gorffwys ar ôl eich gwaith caled! Edrychwch am y 'lôn werdd' sy'n fforchio tua'r chwith ac i lawr allt. Dilynwch y ffens yn hytrach na'r llwybr, ac wrth iddo ddod i derfyn trowch i'r chwith ar hyd hen lôn goed i lawr y cae. Ar ei phen, trowch i'r dde ar hyd lôn goed debyg, dros y glwyd i gae ac am ddau funud at ddwy glwyd ar eich chwith.

Ewch drwy'r glwyd bren, at y lôn werdd isel i'r dde o hen wrych a heibio adfail, yna i'r dde at glwyd i gae ac anelu at y goedwig fytholwyrdd. Trowch i'r dde, a dilyn y ffens i lawr yr allt gan groesi camfa ar y gwaelod. Trowch ar eich union i'r chwith, heb groesi'r nant, a dilyn y llwybr i lawr drwy'r goedwig am tua phum munud. Trowch i'r chwith ac ar hyd y lôn darmac am tua 400 metr i Bandy.

Cam 6 – Y chwarel a'r dramffordd

Pandy i Dregeiriog Safleoedd bws ym Mhandy, Pentre-chwyth a Thregeiriog. Stiwdio gwydr ym Mhandy

Pellter 3 km (2 filltir) Cynnydd uchder 20 metr (70 troedfedd) Amser 50 munud.

Croeswch y briffordd gyda gofal, ac anelu at y blwch ffôn. Ewch ar hyd y lôn, heibio rhes o dai ar y dde. Ewch trwy'r glwyd ar y pen, a throwch i'r dde ar lwybr tramffordd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ewch ar ei hyd am tua deg munud at lôn rydych yn mynd ar ei thraws yn union a thrwy glwyd ger y tŷ sydd â chloch arno (sef hen gartref meistr y chwarel).

Ewch yn eich blaen, gan groesi camfa. Ar ôl munud, dilynwch y fforch i'r chwith ac i fyny'r allt. Ewch ymlaen am tua deuddeg munud, gan fynd heibio mynedfa hen Chwarel Yr Hendre - sy'n lle peryglus. Anwybyddwch bob trofa hyd nes i chi gyrraedd adeilad hyfryd Ffarm Yr Hendre.

Ewch rhwng y prif adeilad a'r tai allan, gan ddilyn y llwybr caregog i lawr yr allt. Mi ddowch at gyffordd.

Trowch i'r dde a thros yr afon am chwe munud am safle bws; fel arall...

Trowch i'r chwith, i fyny'r lôn am funud ac yna i'r dde trwy glwyd i gae a thros gamfa ar unwaith at lwybr gwastad o dan y gwrych. Ewch ar hyd y llwybr am ryw ddau funud at y fan ble mae llwybr y ffarm yn gwyro i'r chwith at y cae uwchben. Ewch yn eich blaen at gamfa. Dilynwch y llwybr am dri munud, yna croeswch y gamfa ger y nant. Cadwch i'r dde o'r gamfa nesaf, yna dilynwch y ffens ar y dde am tua phum munud cyn cyrraedd lôn darmac. Dilynwch y lôn ar y dde, trwy'r glwyd, am tua wyth munud at groesffordd.

Os ydych chi'n awyddus i ddal bws yn Nhregeiriog, trowch i'r dde yma, tros y bont ac ymlaen am bum munud at flwch ffôn a safle bws.

Cam 7 – Ar drywydd ffesantod

Tregeiriog i Lanarmon Dyffryn Ceiriog Safleoedd bws a blychau ffôn yn Nhregeiriog a Llanarmon Lle chwech cyhoeddus yn Llanarmon Digion o fwyd a diod mewn dwy dafarn braf!

Pellter 2km (1.25 milltir) Cynnydd uchder 45 meter (150 troedfedd) Amser 40 munud.

Croeswch y lôn (ond nid y bont) ac ewch ar hyd lôn fach heibio'r orsaf bwmpio ar y dde. Ewch drwy'r glwyd o'ch blaen ac ymlaen am funud cyn troi i'r dde, trwy'r glwyd ac i mewn i gae. Ewch ymlaen ar wastad am ryw bum munud cyn cyrraedd y glwyd o'ch blaen ger gwaelod y goedwig gymysg. Dilynwch y llwybr trwy goedwig y ffesantod. Wrth i'r prif lwybr wyro at i lawr trwy glwyd, ewch ymlaen ar hyd llwybr glaswelltog o fewn y goedwig gyda'r ffens ar y dde. Ar ôl pedwar munud mi fyddwch yn gadael y goedwig trwy glwyd arall ac i mewn i gae. Ewch yn eich blaen trwy gyfoeth o redyn gyda'r ffens ar y dde. Ewch heibio Ty'n y Fedw, ar draws rhan eithaf corsiog, gwyrwch i'r dde i groesi nant a chamfa yng nghornel y cae.

Yn ôl yr arwydd mae Llwybr 1 ar gau dros dro ond rydyn ni'n dilyn trywydd arall, trwy'r glwyd ar y chwith, ar draws y cae a thros gamfa. Ewch ymlaen wrth gyrraedd y brig. Ewch

trwy'r glwyd, gan gadw ysgubor unig ar y dde. Ar ôl dau funud ar lwybr glaswelltog gwastad, ewch trwy glwyd at ffordd darmac. Ar ôl pum munud mi fyddwch yn Llanarmon, pen eich taith!

Mae'n bosib ymuno â'r llwybr yn Nhregeiriog trwy gymryd trafndiaeth gyhoeddus i groesfordd Tregeiriog. Dilynwch y ffordd ochr i lawr yr allt am bedwar munud at y bont dros yr afon.